
# EICH ARDAL CHI
# BETH SY'N BWYSIG?

## ARDAL LLŶN



ASESIAD LLESIANT GWYNEDD A MÔN
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

**2021**

## Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym ar y 1af o Ebrill 2016. Pwrpas y ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r ddeddf wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (y Bwrdd) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio efo'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru.

Ar gyfer Gwynedd a Môn mae'r ddau Fwrdd wedi dod at ei gilydd i gydweithio, ac mae'n bartneriaeth sy'n cynnwys y cynghorau sir, y gwasanaeth tân ac achub, y gwasanaeth iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru, ynghyd â phartneriaid eraill o'r sector gyhoeddus a'r trydydd sector.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi rhannu'r ardal gyfan yn 14 o ardaloedd a elwir yn ardaloedd llesiant. Mae gwaith ymchwil wedi cael ei wneud ar ran y Bwrdd ar bob un o'r 14 ardal er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Mae partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wedi ymgysylltu'n helaeth efo'n cymunedau yn ystod y misoedd diwethaf. Y prif ddarn o waith yng Ngwynedd oedd yr ymarferiad 'Ardal Ni 2035', gyda'r sgyrsiau am faterion lleol yn digwydd fesul ardaloedd llai. Bwriad y gwaith 'Ardal Ni 2035' yw ymgysylltu a chyd-weithio gyda thrigolion, grwpiau a sefydliadau er mwyn helpu cymunedau i adnabod y blaenoriaethau hynny fydd angen sylw dros y 10-15 mlynedd nesaf a chreu a gwireddu cynlluniau adfywio lleol. Er mwyn gweithio â chymunedau llai, mae ardal llesiant Llŷn wedi ei rannu yn ddau sef Ardal Llŷn a Dalgylch Pwllheli.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod y gwaith ymchwil wedi amlygu rhai bylchau data a bod rhai ffigyrau yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad 2011, sydd bellach dros 10 mlynedd oed. Ein bwriad fydd diweddaru'r data sydd yn y llyfryn hwn yn rheolaidd er mwyn casglu'r prif negeseuon sydd wedi eu cyfleu am gyflwr llesiant ein cymunedau, ac yn sail felly i greu'r Cynllun Llesiant fydd yn arwain gwaith y Bwrdd dros y blynyddoedd sydd i ddod.


Ers yr asesiad diwethaf yn 2016, mae ein cymunedau wedi wynebu newidiadau sylweddol yn sgìl Brexit ac yn fwy diweddar y pandemig Covid-19. Mae delio â'r argyfwng wedi amlygu pwysigrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan y sector gwirfoddol a chyhoeddus i'n cymunedau, a phwysigrwydd y cydweithio sydd rhyngddynt. Hefyd, mae'r argyfwng wedi rhoi'r chwydd wydr ar faterion a oedd yn bodoli eisoes yn ein cymunedau gan amlygu rhai pynciau fel tlodi a chyflogaeth, iechyd meddwl, ail gartrefi, twristiaeth ac unigedd.

Yn ogystal mae'r cyfnod wedi amlygu pwysigrwydd ein hamgylchedd sy'n greiddiol i iechyd a lles ein pobl a'n heconomi lleol, gan ddenu ymwelwyr i'r ardal. Wrth i ni edrych tuag at ddilyn llwybr gwyrddach allan o bandemig Covid-19, mae'n gyfle i ni ail edrych ar sut rydym yn defnyddio ein hasedau naturiol i fynd i'r afael â bygythiadau argyfyngau'r hinsawdd a natur.

Bydd yr Asesiad Llesiant yn rhoi sylw pellach i'r materion hyn sy'n bwysig i gymunedau ein hardaloedd.

**DYMA'R WYBODAETH RYDYM WEDI EI GASGLU AR ARDAL LLŶN, SY'N CYNNWYS LLANAELHAEARN A LLANYSTUMDWY. TYBED YDI HYN YN ADLEWYRCHIAD TEG O GYFLWR LLESIANT EICH ARDAL CHI?**

# POBLOGAETH



# Pwy yw pobl Llŷn?

**Mae 19,441 yn byw yn ardal Llŷn sef tua 16% o boblogaeth Gwynedd.**

Mae disgwyl bydd poblogaeth Llyn yn tyfu dros y blynyddoedd nesaf. **Mae ffigyrau yn awgrymu bydd tua 20,845 yn byw yn Llŷn erbyn 2043, cynnydd o 7% ers 2019.** Mae hyn yn o ganlyniad i fewnfudo net. Mae cynnydd tebyg, sef 6%, yn cael ei ragweld yng Ngwynedd.




Yn Llŷn, mae disgwyl gweld y cynnydd mwyaf, sef 46%, yn y boblogaeth 75 oed a hŷn. Mae hyn yn debyg i ragolygon Gwynedd, lle mae disgwyl y bydd tua 42% yn rhagor o bobl dros 75 yn byw yn y sir erbyn 2043.

# Iaith

Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2011, **mae 73% o bobl ardal Llŷn yn gallu siarad Cymraeg**, sy'n uwch na chanran Gwynedd o 65%, a Chymru sydd ar 19%.

Mae'r ffigwr wedi gostwng dros y degawdau diwethaf o'i gymharu â 83% yn 1981. Mae'r gostyngiad yma o 10% yn debyg i weddill Gwynedd sydd wedi gostwng o 76% i 65% dros yr un cyfnod.

**73%**
o bobl ardal Llŷn
yn gallu siarad
Cymraeg

Yn ôl holiadur o 2019, mae 72% o blant cynradd Llŷn yn siarad Cymraeg bob amser neu yn aml ar yr iard. Mae hyn yn uwch na chanran Gwynedd sef 64%. Mae'r canran o blant uwchradd Llŷn sy'n siarad Cymraeg bob amser neu yn aml ar yr iard ychydig yn is, sef 65%, ond mae hyn unwaith eto yn uwch na chanran Gwynedd, sef 42%.

Yn ôl grwpiau a mudiadau ardal Llŷn a Dalgylch Pwllheli, yr iaith a diwylliant Cymraeg ydi un o'r prif nodweddion sy'n gwneud yr ardal yn le da i fyw. (Ardal Ni 2035)

> "Un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg, a honno'n cael ei phasio'n naturiol i'n plant ac i blant ein plant."
> (Gwirfoddolwr Menter Gymunedol Tafarn y Plu, Ardal Ni 2035)


# AMGYLCHEDDOL



# Pa mor wyrdd yw’r ardal?

Mae tipio anghyfreithlon yn is yng Ngwynedd na gweddill Cymru - gyda 5.1 achos o dipio i bob 1000 o’r boblogaeth o gymharu â 10.6. Mae cynnydd wedi bod yn y nifer o achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd yng Ngwynedd o 529 yn 2014/15 i 633 yn 2019/20.

**Yng Ngwynedd mae cynnydd wedi ei weld yn y canran o wastraff trefol sydd wedi’i anfon i’w ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio o 59% yn 2014/15 i 67% yn 2020/21.** Yn 2014/15 roedd y canran ychydig is na chanran Cymru, ond erbyn 2020/21 mae canran Gwynedd a Chymru yn debyg iawn.





# Pa mor lân yw’n strydoedd?

Mae glendid strydoedd yn cael ei archwilio yn flynyddol gan Cadw Cymru’n Daclus.

Yn 2019/20 cafod 142 stryd yng Ngwynedd ei archwilio, ac roedd 95% o safon glendid uchel neu dderbyniol, hynny yw, Gradd B neu uwch. Mae’r canran yma yn debyg iawn i’r hyn ag oedd yn 2015/16.

**O fewn ardal Llŷn cafodd 21 stryd ei archwilio, ac fe wnaeth 100% o’r rhain dderbyn Gradd B neu uwch yn 2019/20.** Mae’r canran yma yr un fath a’r canran a gafodd Gradd B neu uwch yn 2015/16.

**100%** o strydoedd Llŷn yn cyrraedd safon glendid uchel neu dderbyniol



Mae 76% o ymatebwyr ymgynghoriad baw cŵn o Lŷn yn teimlo ei fod yn broblem yn eu hardal, mae hyn yn is na’r 81% o’r un farn yng Ngwynedd.

# Amgylchedd naturiol

## Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn dirlun arbennig sydd, oherwydd ei gymeriad, yn deilwng o gael ei warchod er lles y genedl. Eu hunig bwrpas, yn ôl y ddeddfwriaeth, yw cynnal a gwella harddwch naturiol yr ardal ddynodedig.

Yn Llŷn mae'r Llwybr Cenedlaethol Arfordir yn dilyn arfordir yr AHNE o Aberdesach ar yr arfordir gogleddol i Garreg y Defaid ger Llanbedrog yn y de. Mae'r llwybr wedi ei ddatblygu a'i wella dros y blynyddoedd fel ei bod yn dilyn yr arfordir mor agos â phosibl. Mae'n darparu cyfle arbennig i weld harddwch arfordir Llŷn – gellir gweld y traethau amrywiol, creigiau geirwon a'r ynysoedd.

> "Yr ardal yn hardd, tirwedd tlws gyda mannau gwyrdd naturiol, mynyddoedd a glannau moroedd ar stepen drws pawb."
> (Cyngor Cymuned Tudweiliog, Ardal Ni 2035)

## Erydu arfordirol

Mae Bae Nefyn, rhwng Penrhyn Nefyn a Phenrhyn Bodeilas, wedi bod yn destun mân weithgaredd tirlithriad ers blynyddoedd lawer (yn benodol; 2001, 2009, 2021). Mae yna amrywiaeth o fathau o dirlithriad ym Mae Nefyn. Mae'r llethrau wedi'u gorchuddio â malurion hindreuliedig ac mae hyn yn arbennig o agored i dirlithriad bas, yn enwedig pan fydd dŵr yn ddirlawn.


Mae erydiad arfordirol yn broses naturiol sy'n darparu cyflenwad ffres o waddod, a all ddod â budd i wytnwch arfordiroedd o amgylch Cymru. Bydd risg llifogydd ac erydiad arfordirol yng Nghymru yn gwaethygu o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

.

## Môr a chorsydd Llŷn

Dynodir yr holl ardal forol fel rhan o Benrhyn Llŷn ehangach ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Sarnau - o'r bwys mwyaf i'w phoblogaeth fridio o ddolffiniaid trwyn potel.

Ffen yw math o wlypdir sy'n cael ei fwydo gan ddŵr llawn mwynau. Mae'n bwysig yn rhyngwladol o safbwynt natur, hefyd yn gwella ansawdd ein dŵr, yn helpu i leihau llifogydd ac yn cynorthwyo i frwydro yn erbyn newid hinsawdd drwy storio carbon.



# Newid hinsawdd a llifogydd

Mae'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur ymysg y prif heriau sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol. Dros y ganrif ddiwethaf, mae'r tymheredd wedi cynyddu, mae lefelau'r môr wedi codi, ac mae patrymau tywydd wedi newid yn sylweddol.

Gyda chyfran lawer uwch o arfordir o'i chymharu â siroedd eraill yng Nghymru, gwelir effaith penodol newid hinsawdd ar gymunedau. **Yng Ngwynedd, mae 11,285 o eiddo mewn perygl o lifogydd ar hyn o bryd.**

Yn ardal Llŷn, mae Pwllheli wedi ei hadnabod fel un o 10 cymuned sy'n wynebu risg uchel o lifogydd. Wrth i'r hinsawdd newid, rhagwelir y bydd yr ardal hon, fel llawer o gymunedau arfordirol eraill ledled Cymru, yn wynebu stormydd a glawiad trwm yn fwy aml, yn ogystal â chynnydd yn lefel y môr.

**11,285** o dai Gwynedd mewn perygl o lifogydd



Roedd byw mewn ardal wyrdd yn un o flaenoriaethau grwpiau a mudiadau ardal Llŷn pan ofynnwyd pa newidiadau hoffent eu gweld yn yr ardal dros y 10-15 mlynedd nesaf. I'r dyfodol, roedd dymuniad i fod yn cynnal cynlluniau i leihau defnydd o blastig un-tro, mwy o bwyntiau gwefru ceir a gwneud defnydd o ynni adnewyddadwy er mwyn osgoi effaith newid hinsawdd. (Ardal Ni 2035)

# Awyr iach

Mae crynodiad NO2 yn un modd o fesur ansawdd aer, ac mae'n cael ei gyfleu fel microgramau (µg) cyfartalog am bob m3. Yn 2019 roedd mesur cyfartalog o 4.8 $\mu g/m^3$ NO2 mewn lleoliadau anheddau preswyl yng Ngwynedd. Roedd hyn llawer is na mesur cyfartalog Cymru o 9.2 $\mu g/m^3$.

# CYMDEITHASOL



# Iechyd da?



**Yn ardal Llŷn yn 2020-2021 roedd amser ymateb ambiwlans ar gyfer galwad 'coch', hynny yw y math mwyaf difrifol, ar gyfartaledd 11:11 munud.** Mae hyn wedi codi dros y blynyddoedd diwethaf o 07:41 yn 2018-2019 a 09:37 yn 2019-2020.

Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i *feddygfa* yn uwch yng Ngwynedd na Chymru, gydag amser cyfartalog o 54 munud a 11 munud  i gymharu gyda 40 munud a 7 munud. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer teithio i *fferyllfa* lle mae teithio dwyffordd cyhoeddus cyfartalog yn cymryd 53 munud a preifat 11 munud i gymharu gyda 38 munud a 7 munud ar gyfer Cymru.


O fewn ardal Llŷn mae amrywiaeth o fewn yr amser teithio, lle mae ardaloedd gan gynnwys Aberdaron / Botwnnog a Tudweiliog, Efail Newydd / Buan a Llanystumdwy gydag amser teithio cyfartalog cyhoeddus i fferyllfa a meddygfa llawer hirach nag amser cyfartalog Gwynedd tra bod ardal Pwllheli Gogledd, Pwllheli De a Nefyn llawer is. Mae amser teithio cyfartalog preifat i fferyllfa Aberdaron / Botwnnog a Tudweiliog a Llanaelhaearn yn rhai o'r uchaf yng Ngwynedd a Nefyn, Pwllheli Gogledd a Pwllheli De yn rhai o'r isaf.

Wrth gynnal sgyrsiau gyda grwpiau a mudiadau'r ardal, roedd pryderon am ddarpariaeth iechyd lleol, gan gynnwys diffyg capasiti meddygfeydd, gwasanaethau iechyd meddwl a gofal pobl hŷn, yn brif faterion oedd yn cael effaith negyddol ar ffordd yr oeddent yn teimlo am Llŷn fel lle i fyw. (Ardal Ni 2035)

> "Prinder doctoriaid yn gwneud hi'n amhosib gweld meddyg." (Cyngor Cymuned Buan, Ardal Ni 2035)

Mae ffigyrau iechyd poblogaeth bellach ar gael ar gyfer Gwynedd, i roi syniad o gyflwr a phatrymau iechyd y sir.

**Yn ôl y ffigyrau diweddaraf mae disgwyliad oes dyn adeg ei eni yng Ngwynedd yn 79.5 oed, tra bod disgwyliad oes merch adeg ei geni yn 83.1 oed.** Mae hyn ychydig yn uwch na ffigyrau Cymru lle bod disgwyliad oes dyn adeg ei eni yn 78.3 a merch 82.1.




Yn ôl ffigyrau 2017/18-2019/20, mae 38% o oedolion 16 i 64 gyda phwysau iach yng Ngwynedd. Mae hyn mwy neu lai yr un fath a ffigwr Cymru gyfan. Mae'r ffigwr hyn yn codi i 41% mewn oedolion 65 oed a hŷn yng Ngwynedd, sydd yn uwch na chanran Cymru o 38%.




Ffactorau eraill sy'n effeithio ar ein hiechyd yw ysmygu ac yfed alcohol. **Mae 11% o bobl 16 oed neu'n hŷn yn dweud eu bod yn ysmygu,** sef un o ffigyrau isaf siroedd Cymru, ac mae 16% o bobl yn yfed mwy na 14 uned o alcohol yr wythnos. Mae'r ddau ffigwr yma yn is na ffigwr Cymru gyfan, lle mae 17% yn ysmygu a 19% yn yfed mwy na'r canllawiau.

Mewn arolwg yn 2018/19 a 2019/20 nododd 31% o oedolion Gwynedd eu bod wedi bwyta o leiaf 5 dogn o lysiau a ffrwythau'r diwrnod blaenorol, uwch na lefel Cymru gyfan o 24%.

Mae iechyd meddwl yn rhan bwysig o lesiant ac iechyd. Mae data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o 2018-19 yn nodi lles meddyliol ymysg oedolion (16 a hŷn) ar ffurf sgoriau safonedig oed. 52.9 yw sgôr Gwynedd sydd ychydig yn uwch na sgôr Cymru, sef 51.4.

Mae data gan Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2018/19-2019/20 yn nodi fod 8% o oedolion Gwynedd gydag anhwylderau'r meddwl, canran ychydig bach yn is na weddill Cymru (10%).

# Iechyd plant a pobl ifanc

Mae ystadegau iechyd sbesiffig ar gyfer plant Gwynedd hefyd ar gael.

Mae canran y genedigaethau unigol byw gyda phwysau geni isel ychydig yn is yng Ngwynedd na Chymru, sef 5% i gymharu gyda 6%.

Yng Ngwynedd, mae canran yr holl blant wedi eu himiwneiddio'n llawn yn ôl yr amserlen erbyn pedair oed wedi cynyddu ychydig o 88% yn 2017 i 91% yn 2019. Mae hyn yn uwch na lefelau Cymru lle'r oedd 88% wedi eu himiwneiddio'n llawn yn 2019.

**Mae 31% o blant 4-5 oed dros eu pwysau neu yn ordew** – sy'n uwch na ffigwr Cymru o 27%.

Yn ôl data o 2017/18 mae tua 9% o blant 11-16 oed Gwynedd yn yfed alcohol a 3% yn ysmygu.

Yng Ngwynedd, mae cyfradd beichiogi merched yn eu harddegau sydd o dan 18 oed yn 16.6 fesul 1000 o ferched 15-17 oed , sy'n ostyngiad ers yr asesiad llesiant diwethaf. Mae hyn ychydig yn is na ffigyrau Cymru gyfan, sef 18.9. Mae'r ffigwr yma hefyd wedi gostwng ers yr asesiad llesiant diwethaf.



# Cadw'n ddiogel




Mae troseddau Llŷn fesul 1,000 o'r boblogaeth 16 a hŷn wedi cynyddu ychydig rhwng 2018 a 2020, o 79 i 81. Mae hyn hefyd yn uwch nag oedd yn yr asesiad llesiant diwethaf yn 2015, gyda'r ffigwr yn 64 bryd hynny.

Yng Ngwynedd, mae 55% yn teimlo'n ddiogel iawn a 34% yn teimlo'n eithaf diogel yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu. Yn ogystal mae 89% yn teimlo'n ddiogel iawn a 10% yn teimlo yn eithaf diogel yn y cartref ar ôl iddi dywyllu yng Ngwynedd. Mae mwy o bobl yn teimlo yn ddiogel iawn yn eu hardal leol neu gartref ar ôl iddi dywyllu yng Ngwynedd na Chymru gyfan.

Serch hyn, roedd diogelwch cymunedol a phryderon am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn brif themâu i godi yn yr ardal yn ystod ymarferiad 'sgyrsiau stepen drws' gan gymdeithas dai Adra.


**Ar gyfartaledd rhwng 2017/18-2019/20 roedd 7 achos tân bwriadol y flwyddyn yn ardal Llŷn a 54 achos tân damweiniol,** mae'r ddau ffigwr yma yn is na'r nifer a nodwyd yn yr asesiad llesiant diwethaf. Yng Ngwynedd ar gyfartaledd rhwng 2017/18-2019/20 roedd 113 achos tân bwriadol y flwyddyn a 335 achos tân damweiniol y flwyddyn, mae'r ffigwr achos tân bwriadol yn uwch na'r nifer nodwyd yn yr asesiad llesiant diwethaf tra bod y ffigwr achos tân damweiniol yn is.



**61** achos tân yn ardal Llŷn

# Cadw mewn cysylltiad

**Mae gan 83% o gartrefi yn ardal Llŷn gar neu fan,** sy'n uwch na'r ffigwr ar gyfer Gwynedd, sef 79% a 77% ar gyfer Cymru gyfan.



**83%** o gartrefi gyda char neu fan ardal Llŷn

Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i siop fwyd yn uwch yng Ngwynedd na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 40 munud a 6 munud i gymharu gyda 32 munud a 4 munud.

Mae amrywiaeth o fewn ardal Llŷn, lle mae Pwllheli Gogledd a Pwllheli De gyda rhai o'r amser cyfartalog preifat a cyhoeddus byrraf yng Ngwynedd ac Aberdaron / Botwnnog a Tudweiliog, Llanystumdwy ac Efail-Newydd / Buan gyda'r rhai o'r amser cyhoeddus hiraf ac Aberdaron / Botwnnog a Tudweiliog, Llanystumdwy a Llanengan gyda'r rhai o'r amser preifat hiraf yn y sir.

Mae ffigyrau o 2019 yn dangos fod gan Wynedd ganran uwch o ddiffyg argaeledd canrannol band eang ar 30Mb/e na Chymru gyfan, sef 12% i gymharu gyda 7%.

Mae 16% o bobl Wynedd yn unig, o'i gymharu â 15% sydd yn unig ar draws Cymru gyfan.

"Mae'n ardal wledig iawn ac ymhell o bob man. Mae teithio yn anodd os nad oes gan berson gar ac mae hyn yn ychwanegu at broblemau unigedd yn enwedig i'r genhedlaeth hŷn."
(Aelod o grŵp lleol, Ardal Ni 2035)

# Helpu'n gilydd

Yn ôl ffigyrau'r Cyfrifiad yn 2011, mae 10% o'r boblogaeth yn ardal Llŷn yn rhoi o leiaf un awr yr wythnos o ofal di-dâl.

Mae'r canran o bobl sy'n gwirfoddoli yng Ngwynedd wedi codi ychydig bach o 31% yn 2016 i 33% yn 2019, sy'n uwch na'r Cymru, sef 26%. Mae'n debyg fod Covid-19 wedi golygu cynnydd yn y ffigwr yma, fodd bynnag, nid oedd data fesul ardal leol ar gael.

Roedd ysbryd a chyfeillgarwch y gymuned a chefnogaeth mentrau, elusennau a grwpiau gweithredol ymysg y prif bethau sy'n gwneud ardal Llŷn yn le da i fyw, gyda pandemig ag effaith Covid wedi amlygu parodrwydd y gymuned i helpu ei gilydd. (Ardal Ni 2035)

"Ysbryd cymunedol yn ystod Covid... gwirfoddolwyr wedi gwneud pryd cinio Dolig i'r gymuned a'i gludo a sefydlu grŵp ar 'Messenger' ar gyfer pobl ynysig yn Llangybi er mwyn nol neges a phresgripsiwn o'r fferyllfa."
(Cyngor Cymuned Llanystumdwy, Ardal Ni 2035)



# ECONOMAIDD



# Twristiaeth

**Gan gynnwys AirBnB, mae 1,608 o fusnesau llety ymwelwyr yn Nwyfor, sef tua 40% o'r cyfanswm ar gyfer Gwynedd yn 2019.**

Yn ardal Llŷn, amcangyfrifir bod 40,718 o welyau llety ymwelwyr. Mae hyn yn cynrychioli tua 30% o gyfanswm y gwelyau llety ymwelwyr yng Ngwynedd.

Mae pedwar o'r 18 prif gyrchfan twristiaeth Gwynedd sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor wedi eu lleoli yn ardal Llŷn, sef Aberdaron, Abersoch, Pwllheli a Nefyn.




# Tai ac ail gartrefi

**Yn 2022, roedd canolrif pris tŷ yn ardal Llŷn £218,000, sef cynnydd o £43,000 ers yr asesiad diwethaf yn 2015.**




Mae canolrif incwm teuluoedd Llŷn tua £27,734 ond mae angen o leiaf £40,143 i fforddio prynu tŷ pris lefel mynediad i'r farchnad. Mae hyn yn golygu bod 69% o aelwydydd Llŷn wedi eu prisio allan o'r farchnad - sef y canran uchaf o holl ardaloedd Gwynedd. Mae amrywiaeth hefyd o fewn Llŷn gyda phrisiau cyfartaledd uchaf yr ardal yn Abersoch (£365,275) a Llanengan (£298,500). Mae tua 11% o dai Gwynedd yn ail gartrefi o'i gymharu â 3% yng Nghymru ac mewn rhai ardaloedd o fewn Llŷn mae'r canran o ail gartrefi mor uchel â 47% (Abersoch).

Mae'n debyg hefyd nad yw ffigyrau 2020 yn dangos llawn effaith y pandemig ar brisiau tai yr ardal, ac bydd yr rhain yn cael ei diweddaru pan fydd y data ar gael.

Mae'r pryderon hyn yn cael ei amlygu mewn sgyrsiau gyda thrigolion, gyda diffyg tai sy'n fforddiadwy i bobl leol yn ymddangos fel y prif beth sy'n cael effaith negyddol ar y ffordd oeddent yn teimlo am eu hardal. Roedd sefydlu cynlluniau i fynd i'r afael â'r broblem hefyd wedi ei amlygu fel y prif newid oedd ei angen er mwyn gwella'r ardal yn y 10-15 mlynedd nesaf. (Ardal Ni 2035)


> "Mae cymaint o alw am dai ac mae'r tai sydd ar werth ac ar rent yn mynd yn sydyn... ein cyflogau ddim yn medru cystadlu yn erbyn pobl o du allan i'r ardal."
> (Aelod o fenter leol, Ardal Ni 2035)

# Beth yw gwaith pobl Llŷn?



Mae data'r Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 24% o'r o bobl sydd mewn gwaith yn ardal Llŷn yn gweithio yn y crefftau medrus. Mae'r ffigwr yma yn uwch na chanran Gwynedd, sef 16%. Ar y llaw arall, dim ond 7% sy'n gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cyswllt –sy'n is na'r canran ar gyfer Gwynedd, sef 9% a 11% ar gyfer Cymru gyfan.

Dim ond 10% o'r rhai sydd heb gymhwyster sy'n gweithio fel rheolwyr neu gyfarwyddwyr. Mae'r 35% o bobl sydd â chymhwyster gradd neu gyfatebol yn gweithio yn y maes proffesiynol. Mae hyn yn ffigwr tebyg i weddill Gwynedd a Chymru. Nid oes data dibynadwy ar gael am feysydd gwaith fesul ardal leol wedi 2011, a gwelir felly bwlch data sylweddol.




# Cyflog

**Mae canolrif cyflog wythnosol yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd (y mae ardal Llŷn yn rhan ohoni) tua £361 yr wythnos,** sydd 7% yn is na Gwynedd gyfan (£386 yr wythnos), a 19% yn is na Chymru gyfan (£469 yr wythnos).

Mae cyflogau merched 19% yn llai na chyflog dynion yn yr ardal. Mae'r bwlch yma rywfaint yn llai na'r bwlch ar draws Gwynedd gyfan, lle mae cyflogau merched 32% yn llai na chyflog dynion.

Mae diffyg swyddi gwerth uchel yn un o'r brif thema sydd wedi codi fel pryder yn Llŷn, gyda nifer yn nodi ei fod yn cael effaith negyddol gan orfodi pobl ifanc i adael yr ardal er mwyn cael swydd sy'n talu'n dda.

> "Diffyg swyddi digonol o safon i gadw ieuenctid yn yr ardal fel swyddi technoleg gwybodaeth, ynni adnewyddol a thwristiaeth o safon".
> (Y Ganolfan yn Nefyn, Ardal Ni 2035)

# Diweithdra

Mae 77% o drigolion Llŷn sydd rhwng 16 a 64 oed mewn gwaith neu addysg, sy'n uwch na chanran Gwynedd sef 73%. O bobl Llŷn sydd heb gymhwyster o gwbl mae 43% yn economaidd anweithgar, mae hyn yn golygu ddim yn gweithio am amrywiol resymau. Mae canran y bobl 16-64 oed oedd yn hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith yn ardal Llŷn yn 3.6%. Mae hyn yn is na chanran Gwynedd sef 4.5%.

Mae'r ffigwr yn amrywio yn fawr o fis i fis gyda'r canran uchaf fis Chwefror a Mawrth 2020 (4.8%) a'r isaf yn Medi 2021 (2.3%). Mae'n debyg fod hyn o ganlyniad i effaith gyfnod clo Covid-19 ar ddechrau 2021, a hefyd fod patrwm gwaith ardal Llŷn yn dymhorol iawn.

# Busnesau

Yn 2020, roedd cyfanswm o 4,380 o fusnesau wedi cofrestru yng Ngwynedd.

Mae cyfradd busnesau newydd sy'n cychwyn yng Ngwynedd yn is nag Ynys Môn, Gogledd Cymru a Chymru.



61%

o gwmnïau yn goroesi 3+ blwyddyn

**Mae 61% o gwmnïau yng Ngwynedd yn aros mewn busnes am o leiaf tair blynedd neu fwy.** Mae hyn yn uwch na Chymru sydd ar 54%. Mae'r gyfradd o'r busnesau sy'n methu hefyd yn is yng Ngwynedd o'i gymharu ag Ynys Môn, Gogledd Cymru a Chymru.

# Sgiliau am oes



O 2018/19 mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno set newydd o fesurau perfformiad sy'n cynnwys y sgôr pwyntiau Llythrennedd, y sgôr pwyntiau Rhifedd a'r sgôr pwyntiau Gwyddoniaeth. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu o flwyddyn i flwyddyn dros y blynyddoedd diwethaf ac nid oes dadansoddiad fesul sir ers 2018/19.

Fodd bynnag, mae ffigyrau ar gael am y nifer o adawyr ysgol blwyddyn 11 y gwyddys sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Yng Ngwynedd mae'r ganran am 2020 yn 1.2%, sy'n is na ffigwr Cymru gyfan sef 1.7%.

# Yr arian yn ein poced

**Mae incwm sydd ar gael i'w wario ar ôl costau talu am gartref a threthi gan bobl yng Ngwynedd, yn £15,941 y pen y flwyddyn, sydd yn £1,322 yn llai na Chymru gyfan.**




Yn ardal Llŷn, mae 13% o ddisgyblion ysgol gynradd yn hawlio prydau ysgol am ddim sydd yn debyg iawn i ganran Gwynedd gyfan. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd ysgol uwchradd, mae'r ffigwr yn gostwng i tua 10%, sydd hefyd yn is na'r 13% ar gyfer gweddill y sir.

Yn ôl ffigyrau cyn-bandemig mae bron i 23% o gartrefi Llŷn mewn tlodi tanwydd, sydd ymysg yr uchaf yng Nghymru. Mae'n uwch o gymharu i Wynedd gyfan sydd â 20% o aelwydydd mewn tlodi tanwydd, ac yn sylweddol uwch na Chymru, sydd ar 14%.

Fodd bynnag, gyda'r cynnydd diweddar mewn prisiau tanwydd mae'r ffigwr hwn yn debygol o fod yn llawer uwch na'r amcangyfrif yn 2018, ond yn anffodus roedd dod o hyd i ddata dibynadwy yn y maes hwn yn broblemus.

# DIWYLLIANNOL









# Cadw'n heini

Yn ôl Arolwg Chwaraeon Ysgol ddiweddaraf Chwaraeon Cymru mae nifer tebyg o blant Gwynedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon a sydd ar draws Cymru.

**Yn 2018, roedd 49% o blant Gwynedd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd chwaraeon 3 gwaith neu fwy yr wythnos** – mae hyn yn cymharu â 48% yng Nghymru. Mae 66% o ddisgyblion Gwynedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon cymunedol tu allan i'r ysgol o leiaf un waith yr wythnos, tebyg i'r 65% yng Nghymru.



**49%**

o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon 3+ gwaith yr wythnos

Yn 2019 roedd 33% o oedolion yn dweud eu bod yn cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos i gymharu gyda 32% yng Nghymru.


Mae amser teithio cyhoeddus a preifat dwyffordd i gyfleuster chwaraeon yn uwch yng Ngwynedd na Chymru, gydag amser cyfartalog o 71 munud a 12 munud i gymharu gyda 55 munud a 10 munud yn y drefn honno.

Unwaith eto mae amrywiaeth i'w weld o fewn yr ardal, lle mae Llanengan ac Aberdaron / Botwnnog a Tudweiliog gyda rhai o'r amseroedd teithio cyhoeddus hiraf yng Ngwynedd a Gogledd Pwllheli a De Pwllheli gydag amser teithio cyhoeddus is na chyfartalog y sir. Mae amrywiaeth hefyd i'w weld wrth edrych ar deithio preifat, lle mae amser cyfartalog De Pwllheli yn un o'r byrraf yng Ngwynedd, ac amser Llanaelhaearn a Llanengan yn rai o'r hiraf yn y sir.

# Amser hamdden

Mae amser cyfartalog teithio dwyffordd cyhoeddus a preifat i lyfrgell gyhoeddus yn uwch yng Ngwynedd na Chymru gyfan, gydag amser cyfartalog o 61 munud a 15 munud i gymharu gyda 45 munud a 10 munud.






Mae ffigyrau amser hamdden ar gael ar gyfer y cyfnod cyn y pandemig. **Yn ôl arolwg o 2019/20 roedd 65% o oedolion yng Ngwynedd yn dweud eu bod wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn ystod y flwyddyn** a 38% wedi ymweld ag amgueddfa. Mae'r ddau ffigwr yma wedi cynyddu ychydig ers yr asesiad diwethaf. Yn 2016/17 roedd 47% wedi ymweld â llefydd hanesyddol, lleihad ers yr asesiad diwethaf.

Mae effaith y pandemig ar y celfyddydau a diwylliant yn amlwg, gyda theatr a sinemau yn gorfod cau dros gyfnod y clo a chyfyngiadau yn y niferoedd sy'n cael mynychu digwyddiadau wedi hynny. Fodd bynnag, nid oedd ffigurau dibynadwy fesul ardal leol i fesur hyn ar gael.

# Mannau gwyrdd

Mae cysylltiad rhwng llesiant diwylliannol a threulio amser mewn mannau gwyrdd a natur, ac mae agosatrwydd at fan gwyrdd naturiol yn un ffurf o asesu amgylchedd ffisegol ardal.

Mae sgôr ar gyfer agosatrwydd at Fan Gwyrdd Naturiol Hygyrch yr un fath ar gyfer Gwynedd a Cymru gyfan, sef 77%.

> "Ardal fendigedig rhwng môr a mynydd. Digon o atyniadau awyr agored i drigolion lleol ac ymwelwyr eu mwynhau drwy gydol y flwyddyn."
> (Aelod o grŵp lleol, Ardal Ni 2035)



# AM FWY O WYBODAETH...

www.LlesiantGwyneddaMon.org
post@llesiantgwyneddamon.org
01766 771000
Gofynnwch am Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn